# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2020

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Manon George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol

(13.00 - 13.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 COVID-19: Tystiolaeth o effaith pandemig COVID 19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol

(13.30 - 14.30) (Tudalennau 1 - 32)

Stephen Cushion, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd

Emma Meese, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd

Ifan Morgan Jones, Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor

## Egwyl

(14.30 - 14.45)

## 3 COVID-19: Tystiolaeth o effaith pandemig COVID 19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol

(14:45 - 15:45) (Tudalennau 33 - 37)

Gavin Thompson, Newsquest

Steve Johnson - Prifysgol De Cymru

Phil Henfrey, ITV Cymru Wales

Andrew Dagnell, ITV News

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Lywodraeth Cymru am restr o gerfluniau mewn mannau cyhoeddus

(Tudalennau 38 - 39)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Ôl-drafodaeth breifat

(15.45 - 16.00)

## 7 Blaenraglen Waith

(16.00 - 16.30) (Tudalennau 40 - 44)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

**Effaith Covid-19 ar newyddiaduraeth a chyfryngau lleol yng Nghymru**

**Gorffennaf 2020**

**Cyflwyniad**

Mae'r niferoedd uchel o bobl ar draws Cymru wedi troi at y BBC fel ffynhonnell newyddion, adloniant a chwmnïaeth yn ystod cyfnod y coronafeirws. Mae ffigurau diweddar yn dangos bod cynifer â 97% o boblogaeth oedolion Cymru wedi troi at y BBC ambell wythnos – ychydig yn uwch na ffigwr y DU o 94% - gyda'r mwyafrif llethol yn sgorio ymateb y BBC yn uchel.

Cymerodd y BBC gamau cyflym ar ddechrau'r pandemig Covid-19 i addasu ein gwasanaethau a'n rhaglenni er budd cynulleidfaoedd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i hysbysu, addysgu a diddanu yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Mae cenhadaeth gwasanaeth gyhoeddus y BBC wedi bod yn bwysicach nag erioed yn ystod yr argyfwng. Mae'r BBC wedi hysbysu, addysgu a diddanu yn ystod y cyfnod heriol hwn, fel y mae wedi gwneud ers bron i ganrif. Mae hefyd wedi darparu newyddion dibynadwy i filiynau yn y DU a ledled y byd, sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn gallu dilyn cwricwlwm ei genedl, parhau i ddiddanu'r DU, dod â phobl at ei gilydd a chefnogi'r diwydiant ehangach.

**Newyddion y DU**

- Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r BBC wedi cryfhau ei rôl craidd i ddod â newyddion a gwybodaeth y gellir ymddiried ynddo i gynulleidfaoedd yng Nghymru, y DU ac o amgylch y byd, mewn sefyllfa sy'n newid mor gyflym, ac i egluro'r dryswch a'r camwybodaeth.

- Symudodd BBC One *Question Time* i slot amlycach am 8pm ar nos Iau a chafodd rhai bwletinau newyddion eu hymestyn, gyda'r nod o roi'r datblygiadau a'r cyngor diweddaraf i gynulleidfaoedd. I gynulleidfaoedd iau, mae bwletinau *Newsround* yn darlledu ar CBBC. Ar BBC Sounds, cynhyrchodd y BBC rifyn dyddiol o bodlediad y coronafeirws.

- Mae cynulleidfaoedd yn parhau i ymddiried yn y darlledwyr cyhoeddus, gyda'r BBC yn profi'r ymddiriedaeth fwyaf. Gwelwyd hynny yn yr ymchwil a wnaed gan Ofcom ar ddechrau'r cyfnod clo, a ddangosodd fod 83% o bobl yn ymddiried yn yr arlwy ar deledu'r BBC.

- Mae gan y BBC fentrau penodol i fynd i'r afael â gwybodaeth gamarweiniol. Reality Check yw prif wasanaeth gwirio ffeithiau'r BBC sy'n cael ei gynnal ar draws pob platfform, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth hwn yn mynd i'r afael â straeon newyddion ffug neu gamarweiniol gan ffigyrau cyhoeddus a sefydliadau a allai fod yn anwiredd neu'n gamarweiniol, ac yn cyflwyno'r ffeithiau sydd wedi'u profi. Mae ymchwil a wnaed gan Ofcom yn ystod

y cyfnod clo yn dangos bod bron i hanner oedolion y DU wedi dod ar draws honiadau ffug ynglŷn â'r coronafeirws.

- Yn ystod y pandemig Covid-19, mae'r BBC wedi creu tîm pwrpasol sy'n taclo camwybodaeth yn ddyddiol – gan ddod â Reality Check, BBC Monitoring a'n gohebwyr arbenigol yn y DU a ledled y byd at ei gilydd.

- Mae BBC News wedi adlewyrchu'r polisïau a'r rheoliadau gwahanol sydd mewn lle ar draws y Deyrnas Unedig yn gyson yn ystod y pandemig. Cafwyd ymrwymiad clir i egluro'r gwahaniaethau ar draws y DU ac i danlinellu i gynulleidfaoedd pan fydd polisïau a rheoliadau yn berthnasol i genedl benodol yn y DU yn unig. Pan gyhoeddwyd newidiadau mawr i'r rheoliadau yng Nghymru, rhoddwyd sylw i'r stori ar bob gwasanaeth, gan gynnwys erthyglau ar-lein ac ymateb byw a phecynnau ar deledu a radio. Yn ogystal, pan gafwyd cyhoeddiadau mawr sy'n effeithio ar Loegr yn unig, mae'r *BBC News at Six* a'r *BBC News at Ten* wedi cynnwys elfen fyw o bob un o'r cenhedloedd, er mwyn pwysleisio'r gwahaniaethau polisi.

- Mae cynhadledd newyddion Llywodraeth Cymru wedi bod yn fyw ar y News Channel yn ogystal â BBC Two. Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru wedi'u dal i gyfrif yn fyw ar deledu a radio rhwydwaith yn ystod y cyfnod hwn.

- Mae'r BBC wedi adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru i gynulleidfaoedd ledled y DU. Mae Hywel Griffith, Tomos Morgan a Mark Hutchings – y newyddiadurwyr rhwydwaith yng Nghymru – wedi diweddaru cynulleidfaoedd drwy gydol y cyfnod ar deledu ar radio. Mae'r pecynnau yn rhy niferus i'w rhestru, ond ymhlith yr enghreifftiau diweddar oedd pecyn Tomos Morgan ar sut mae dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu heffeithio a darn gan Hywel Griffith ar effaith y cyfnod clo ar bobl oedd yn gwarchod ar draws y DU, gan ddefnyddio enghraifft o Gymru i bortreadu'r darlun ehangach. Mae nifer o straeon ar-lein a gynhyrchwyd gan adran Newyddion BBC Cymru wedi'u cynnwys ar hafan Newyddion y DU a'r mynegai DU-gyfan i ddarlunio'r stori yng Nghymru i gynulleidfa ehangach.

- Ar ddechau'r pandemig, denodd newyddion rhwydwaith y BBC gynulleidfaoedd sy'n gyfwerth â 78% o boblogaeth oedolion y DU, gyda chynulleidfa o bron i 40 miliwn ar ei uchaf ar draws un wythnos. Roedd hyn yn gynnydd o 35% o'i gymharu â'r un pryd y llynedd. Ar gyfer Newyddion Ar-lein y BBC, ar ei uchaf, denwyd 83 miliwn o borwyr unigol wythnosol ganol Mawrth.

- Denodd newyddion rhwydwaith y BBC gynulleidfaoedd sy'n gyfwerth â 79% o boblogaeth oedolion Cymru, gyda chynulleidfa o 1.9m ar ei uchaf yn gwylio ar draws un wythnos. Roedd hyn yn gynnydd o 40% o'i gymharu â'r un pryd y llynedd.

**Newyddion BBC Cymru**

Mae cynulleidfaoedd wedi troi at y BBC mewn niferoedd sylweddol yn ystod yr argyfwng er mwyn derbyn y wybodaeth a'r dadansoddi diweddaraf ynglŷn â'r sefyllfa yng Nghymru.

- Yn ystod y cyfnod clo, mae timau BBC Cymru wedi darparu darllediadau cynhwysfawr dyddiol ar wasanaethau Newyddion Ar-lein BBC Cymru a BBC Cymru Fyw. Rydym yn cynnig fersiwn Gymreig o hafan Newyddion y BBC i ddefnyddwyr sy'n mewngofnodi yng Nghymru, ac rydym wedi defnyddio'r gallu hwnnw i sicrhau bod straeon coronafeirws sydd o ddiddordeb penodol i gynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael sylw amlwg.

- Ar deledu a radio, rydym wedi darlledu dros 14 awr o newyddion dyddiol o ddydd Llun i ddydd Gwener ar gyfer *BBC Wales Today*, *Newyddion* ar gyfer S4C, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.

- O ddechrau'r argyfwng, mae timau Newyddion BBC Cymru wedi symud yn gyflym i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio – gan gynnwys gweithio gartref. Fe wnaeth ymroddiad a hyblygrwydd ein timau newyddion, yn ogystal â staff technegol a gweithredol yn ystod y cyfnod hwn, sicrhau bod cynnwys o ansawdd uchel yn parhau i gael ei ddarparu'n ddiogel bob dydd.

- Er gwaetha'r heriau, mae BBC Cymru wedi ehangu ei gynnwys newyddion yn ystod y cyfnod hwn. Cyflwynodd ein gwasanaethau ar-lein yn Gymraeg a Saesneg dudalennau byw i ddod â'r wybodaeth ddiweddaraf am y pandemig yng Nghymru. Ar deledu, mae cynhadledd newyddion ddyddiol Llywodraeth Cymru am y coronafeirws wedi'i darlledu yn ei slot ei hun am hanner awr am 12.30pm ar BBC One Wales, a'i hail-ddarlledu'n llawn ar BBC Radio Wales bob dydd. Cafodd ein gwasanaethau radio eu hymestyn, gyda *Post Cyntaf* ar BBC Radio Cymru a *Gareth Lewis in Drivetime* ar BBC Radio Wales yn cael eu hehangu hanner awr ac awr bob dydd. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi'u dal i gyfrif ar raglenni dyddiol yn ogystal â fformatau mwy treiddgar ar *Sunday Supplement* a *Politics Wales.* Mae'r gwrthbleidiau a lleisiau eraill hefyd wedi cael cyfle i gyflwyno eu barn ac i'w herio hefyd.

- Mae tîm Materion Cyfoes BBC Cymru wedi cynhyrchu cyfres pum-rhan ar gyfer BBC One Wales a oedd yn gofnod o brofiadau amrywiaeth o unigolion ledled Cymru yn ystod y cyfnod clo. Yn ogystal, cynhyrchodd y tîm ymchwiliad hanner awr dirdynnol i'r coronafeirws mewn cartrefi gofal, gan asesu materion fel nifer y marwolaethau a'r mynediad at brofion.

- Ddiwedd mis Mawrth, cymerwyd y penderfyniad anodd i roi'r gorau i fwletinau cynnar o'r cenhedloedd a'r rhanbarthau yn ystod rhaglen *Breakfast,* oherwydd y gofynion digynsail ar dimau ar draws y DU a'r angen i addasu i'r gofynion o ymdrin â'r argyfwng coronafeirws. Mae disgwyl i'r rhain ail-ddechrau ddydd Llun

13eg Gorffennaf. I ddechrau, byddant yn cael eu darlledu dair gwaith – toc cyn 6.30, 730 a 8.30 – cyn dychwelyd at y bwletinau llawn ym mis Medi.

- Mae Newyddion BBC Cymru wedi cynnig darllediadau a dadansoddi cynhwysfawr o effaith y coronafeirws ar Gymru. O adlewyrchu profiadau unigolion a brofodd golled drasig aelodau'r teulu i adrodd straeon staff y GIG a chleifion mewn Uned Gofal Dwys, y nod oedd ymdrin ag effaith yr argyfwng ar unigolion a chymunedau ym mhob rhan o Gymru. Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo ddechrau llacio a nifer yr achosion ostwng, mae'r pwyslais golygyddol wedi symud i adlewyrchu profiadau gweithwyr a busnesau sy'n brwydro i oroesi.

- Mae profiadau a phryderon uniongyrchol ein cynulleidfaoedd wedi llywio'r cwestiynau y mae gohebwyr yn eu gofyn i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Drwy gydol y cyfnod hwn,  cafwyd dadansoddiad o'r themâu allweddol oedd yn codi dro ar ôl tro - gan gynnwys yr effaith ar gartrefi gofal, argaeledd profion a PPE a'r ddadl bresennol am gyflymder llacio'r cyfyngiadau yng Nghymru.

- Ddiwedd Mawrth, denodd *BBC Wales Today* gynulleidfaoedd sylweddol, sy'n gyfystyr â 60% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru yn gwylio'r bwletinau, sef tua 1.47m ar draws un wythnos. Mae hyn yn gynnydd o 40% o gymharu â'r un pryd y llynedd. Mae darllediadau *Newyddion* ar gyfer S4C – a gynhyrchir gan BBC Cymru – hefyd wedi gweld cynnydd, er ychydig yn hwyrach ar ddechrau Mai (yn ystod yr wythnos yn cychwyn 4ydd Mai), wrth i 80,000 wylio unrhyw gynnwys newyddion yn ystod yr wythnos (cyrhaeddiad 3 munud). Roedd hyn yn gynnydd o 76% o'i gymharu â'r un wythnos yn 2019.

- Trodd cynulleidfaoedd niferus at ein safleoedd ar-lein hefyd er mwyn cael mynediad at wybodaeth ledled y DU. Ar gyfer safle newyddion ar-lein Saesneg BBC Cymru, ar ei uchaf, gwelwyd 5.7 miliwn o borwyr unigryw wythnosol ddechrau Ebrill. A gwelodd Cymru Fyw gynnydd yn nifer y defnyddwyr o bron i 70,000 o borwyr unigryw. Mae'r ymgysylltu â chynnwys Newyddion BBC Cymru ar Facebook wedi cyrraedd 1.2 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol ddiwedd Mawrth, sydd 5 gwaith yn fwy na chyfartaledd wythnosol 2020 cyn Covid-19.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd – Pwyllgor Diwylliant,
Y Gymraeg a Chyfathrebu

SeneddDGCh@senedd.cymru

09 Gorffennaf 2020

Annwyl Helen Mary Jones,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin yn gofyn a oes rhestr o gerfluniau mewn mannau cyhoeddus. Fe wnaethoch ofyn hefyd pa gamau yr ydym yn eu cymryd i sefydlu rhestr o'r fath.

Mae Cof Cymru, adnodd ar-lein Cadw, sy'n darparu gwybodaeth am leoliad a manylion asedau hanesyddol dynodedig a chofrestredig ledled Cymru, yn cynnwys y cerfluniau hynny sy'n rhestredig neu'n gofrestredig – gweler y rhestr sydd ynghlwm. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol gan fod lefel yr wybodaeth sy'n gysylltiedig â phob adeilad rhestredig yn amrywio.

Mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei fod yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i oruchwylio'r gwaith o baratoi archwiliad o henebion a chofebau, enwau strydoedd ac adeiladau ledled Cymru sydd â chysylltiad ag agweddau ar hanes pobl dduon, ac yn benodol, rôl yr Ymerodraeth Brydeinig a'r fasnach mewn caethweision fel y mae'n berthnasol i Gymru. Mae wedi gofyn hefyd i'r grŵp sy'n goruchwylio'r gwaith nodi ac ystyried materion sy'n codi o'r archwiliad a allai fod yn sail i ail gam y prosiect. Caiff y grŵp ei gadeirio gan Gaynor Legall a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr a ddewisir oherwydd eu gwybodaeth arbenigol am hanes caethwasiaeth a chymunedau duon yng Nghymru. Bydd tîm prosiect bychan yn Cadw yn cefnogi gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen.

Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn darparu cyngor arbenigol i gefnogi:

- Archwiliad o gerfluniau, cofebau a strwythurau coffa eraill mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys casglu gwybodaeth am hanes, perchenogaeth a chyrff cyfrifol a ph'un a ydynt wedi'u dynodi ai peidio.
- Archwiliad o enwau strydoedd ac adeiladau cyhoeddus dadleuol.
- Adolygiad cryno o'r materion a godwyd gan y safleoedd, yr enwau a'r adeiladau hyn a datblygu syniadau cychwynnol ar gyfer gwaith pellach.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr amcan fydd cwblhau'r archwiliad o safleoedd ac enwau lleoedd gan gynnwys nodi'r materion a godir gan yr archwiliad erbyn diwedd mis Hydref eleni.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon